Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Gêm geirfa datblygu gynaliadwy

| | |
|---|---|
| **Cyfnod allweddol/Grŵp oed** | **CA2/3/4** |
| **Hyd y gweithgaredd** | **15 – 30 munud** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn amlygu pwysigrwydd rheoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar roi cyflwyniad sylfaenol i ddisgyblion i ddatblygu cynaliadwy a geirfa allweddol.

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw mynd ar drywydd rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ei holl waith. Golyga hyn gofalu ar ôl aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella lles Cymru a darparu gwell dyfodol i bawb.

## Cysylltiadau'r cwricwlwm

| ADCDF | Yr amgylchedd naturiol | Defnydd a gwastraff | Newid yn yr hinsawdd |
|---|---|---|---|
| **CA2** | • Datblygu parch am dirluniau, cynefinoedd a phethau byw<br>• Datblygu rhyfeddod a pharch am y byd naturiol<br>• Mae pobl yn dibynnu ar yr amgylchedd am ynni, bwyd a deunyddiau ac adnoddau eraill | • O ble mae'r pethau y mae pobl yn eu defnyddio'n dod ac yn mynd iddo<br>• Ffyrdd o leihau eu defnydd ynni a defnydd pobl eraill o ynni<br>• Bod gwastraff yn gallu achosi llygredd | • Gall hinsawdd newid gydag amser<br>• Ystod y ffyrdd o gadw a chreu ynni |
| **CA3** | • Dangos pryder deallus am ansawdd yr amgylchedd naturiol gerllaw ac o bell<br>• Sut mae gweithgarwch dynol yn newid amgylcheddau lleol a byd-eang | • Datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb am ddatblygu cynaliadwy | • 'Effaith y tŷ gwydr' a sut mae gweithgarwch dynol yn effeithio ar yr amgylchedd byd-eang<br>• Achosion gofid ynghylch, a goblygiadau newid yn yr hinsawdd<br>• Sut defnyddir adnoddau ynni adnewyddadwy ac na ellir ei adnewyddu i greu trydan |
| **CA4** | • Capasiti cario unrhyw amgylchedd a'r ddaear yn gyfan gwbl a gyfyngwyd gan systemau naturiol | | • Sut mae gwahanol nwyon yn effeithio ar yr hinsawdd a sut gellir lleihau'r nwyon hyn |

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd disgyblion yn gallu:**

- Defnyddio geirfa allweddol sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy
- Trafod a dysgu ynghylch nifer fawr o agweddau ar ddatblygu cynaliadwy

## Offer ac adnoddau

- **Cardiau adnoddau - Gêm geirfa datblygu gynaliadwy CA2**
- **Cardiau adnoddau - Gêm geirfa datblygu gynaliadwy CA3/4**

## Beth i wneud

Argymhellir bod y gweithgaredd hwn yn cael ei wneud fel rhagarweiniad i weithgareddau eraill sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy.

Mae'r cardiau adnoddau'n cynnwys 15 set. Mae gan bob set air sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy, ei ddiffiniad a llun ar gerdyn.

Nid oes angen defnyddio'r cardiau adnoddau i gyd, gellir dewis neu hepgor geiriau penodol er mwyn chwarae â nhw'r tro nesaf.

Gellir addasu a chynnal y gweithgaredd mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys:

- Rhoi cerdyn i bob dysgwr. Rhaid i'r disgyblion fynd o gwmpas, edrych a thrafod cardiau ei gilydd er mwyn dod o hyd i ddisgyblion gyda chardiau sy'n cyfateb i'w rhai nhw. Pan fydd y disgyblion yn dod o hyd i bobl eraill gyda chardiau cyfatebol, rhaid iddynt ffurfio grŵp sy'n cynnwys un cerdyn gair, un cerdyn diffiniad ac un llun ar gerdyn.
- Rhannu'r setiau o gardiau rhwng grwpiau bach o ddisgyblion i'w cyfateb.
- Gall grwpiau o ddisgyblion gael yr un setiau o gardiau. Wedyn, gallant gymharu sut maen nhw wedi cyfateb y cardiau a thrafod eu canfyddiadau.
- Os bydd lle'n caniatáu, gellir gwasgaru'r cardiau ar hap ar y llawr, wedi'u gwasgaru dros ardal er mwyn i'r disgyblion eu casglu. Defnyddiwch yr un faint o setiau â nifer y disgyblion, e.e. os oes 13 disgybl, defnyddiwch 13 set (cyfanswm o 39 cerdyn). Daliwch un math o gerdyn yn ôl (naill ai'r gair, y diffiniad neu'r lluniau) a gwasgarwch y ddau fath eraill o gardiau. Rhaid i'r dysgwyr ddewis un cerdyn o'r set heb ei gwasgaru ac yna mynd i ganfod y cardiau cyfatebol sydd wedi'u gwasgaru hyd nes iddynt gwblhau set o dri cherdyn.
- Gwasgarwch yr holl gardiau ar y llawr a gofynnwch i'r disgyblion gasglu un o bob un cyn gynted â phosibl. Wedyn, rhaid iddynt fynd o gwmpas, gan edrych ar gardiau ei gilydd a'u trafod i ganfod disgyblion sydd â chardiau sy'n cyfateb i'w rhai nhw. Pan fydd y disgyblion yn dod o hyd i bobl eraill gyda chardiau cyfatebol, rhaid iddynt ffurfio grŵp sy'n cynnwys un dysgwr gyda cherdyn gair, un dysgwr gyda cherdyn diffiniad ac un dysgwr gyda llun ar gerdyn.
- Gellir defnyddio'r cardiau i chwarae gemau fel snap neu gofio parau. Dylai pawb gymryd eu tro i ddatguddio tri cherdyn ar y tro, gan gasglu setiau cyfatebol hyd nes i bob un gael eu casglu.
- Pan fydd y disgyblion yn fwy cyfarwydd â'r geiriau a'r diffiniadau, gallai'r gweithgaredd gael ei redeg fel gêm gyfnewid gyda grwpiau o ddisgyblion yn rasio i gyfateb y cardiau yn yr amser cyflymaf. Rhowch yr un faint o setiau i bob grŵp, e.e. os oes pum grŵp cyfnewid, rhowch dair set o gardiau i bob grŵp eu cyfateb. Wedyn, gall y grwpiau gyfnewid i gyfateb gwahanol gardiau.

Pa bynnag ffordd y cyflawnir y gweithgaredd rhowch amser ar y diwedd er mwyn i'r grwpiau gyflwyno'u cardiau ac esbonio'u rhesymau am gyfateb. Gallant drafod pob set a phenderfynu os ydyn nhw wedi cyfateb eu hunain yn gywir.

## Cwestiynau allweddol a awgrymir

- **Beth mae'r gair hwn yn ei olygu?**
- **Beth mae'r llun hwn yn dangos i ni?**
- **Beth ydych chi'n gwybod amdano?**
- **Allwch chi esbonio beth mae hynny'n ei olygu?**

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Llai galluog

- Cyflwynwch fersiwn wedi'i harwain yn fwy gan oedolion.
- Gadewch allan y setiau rydych yn meddwl y bydd eich dysgwyr yn cael hi'n anodd deall.
- Gadewch y cardiau diffiniad allan er mwyn i'r disgyblion ond gorfod cyfateb y cardiau geiriau a lluniau.
- Darwahanu'r cyflwyniad o gardiau newydd fel gall dysgwyr dysgu'r eirfa newydd yng nghyfnodau.

### Mwy galluog

- Gellir rhoi'r cardiau geiriau a lluniau i'r disgyblion, a chardiau gwag i ysgrifennu eu set eu hunain o gardiau diffiniad. Wedyn gall y disgyblion farnu ydy eu diffiniadau'n gywir. Os ydy eu diffiniadau'n gywir gellir eu defnyddio i chwarae'r gêm. Os oes diffiniad yn anghywir, rhaid ei gyfnewid am y cerdyn diffiniad a gyflenwyd i allu chwarae'r gêm.

## Gweithgaredd dilyn i fyny/estyniad

- Defnyddiwch y rhyngrwyd i ymchwilio i'r geiriau a ddefnyddiwyd ac i ddod o hyd i luniau eraill i wneud fersiwn wahanol o'r gêm. A ellir ychwanegu unrhyw eiriau ychwanegol? Gellir gludo'r cardiau gemau newydd ar y cerdyn a'u torri i fyny'n ddarnau jig-so er mwyn i bobl eraill eu cyfateb.

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** os gwelwch yn dda, neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government